COEDANA
RHODOGEIDIO
LLANNERCH-Y-MEDD

# Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd Community Council

## Polisi Amgylcheddol a Bioamrywiaaeth

Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i holl dir, eiddo a gweithgareddau o fewn rheolaeth Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd.
I gydymffurfio a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau yng Nghymru ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

1 Ymrwymo i warchod a gwella'r amgylchedd ac i leihau effeithiau amgylcheddol a all ddeilio o'u gweithgareddau.

2 Rheoli gweithrediadau mewn modd a fydd yn amgylcheddol gynaliadwy.

3 Lleihau cynhyrchiad gwastraff i'r hyn sydd yn ymarferol ac i ail ddefnyddio neu ail-gylchu lle mae'n briodol.

4 Lleihau gwastraff papur, drwy e-bostio copïau yn lle eu hargraffu. Argraffu dogfennau ddwy ochr pan mae angen copi papur.

5 Lleihau, a ble mae'n bosib, i osgoi llygredd e.e. cynnal cyfarfodydd drost Zoom.

6 Bod yn effeithlon a chyfrifol yn amgylcheddol, drwy reoli defnydd o ddŵr ac ynni.

7 Rhoi gofyn i gontractwyr y Cyngor am bolisi amgylcheddol fel cymhwyster wrth ystyried gwaith cytundebol.

8 Codi ymwybyddiaeth aelodau'r Cyngor a'r contractwyr o effeithiau amgylcheddol yn deillio o weithgareddau a pherfformiad ac i hyrwyddo ymarfer da unigolion.

9 Defnyddio deunydd a llafur lleol i leihau'r effaith amgylcheddol o deithio.

10 Plannu coeden newydd yn lle unrhyw goeden sy’n cwympo a’i thorri i lawr.

11 Plannu amrywiaeth o flodau sy’n denu peillwyr mewn mannau arbennig. Hyn trwy gydweithrediad ac arbenigedd aelodau gwirfoddol Gardd Gymunedol Llan.

12 Ystyried bioamrywiaeth wrth drafod ceisiadau cynllunio a cheisiadau nawdd yn unol a gofynion Adran Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn.

13 Creu ardaloedd bywyd gwyllt mewn mannau arbennig.

14 Cefnogi a chodi ymwybyddiaeth y gymuned i wirfoddoli i gynnal mannau gwyrdd a chynnal a chadw bioamrywiaeth. Plannu yng Nghae Gofeb yn esiampl.

15 Cydweithio gyda mudiadau e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru Cyngor Sir Ynys Môn; Antur Waunfawr i sicrhau bod camau gweithredol yn cael eu dilyn mewn achosion fel, llifogydd, llygru afonydd; tipio anghyfreithlon a llarpio papur.

16 Defnyddio plaladdwyr dim ond lle mae gwir angen ei reoli, fel yn y Fynwent Gyhoeddus a dan gyfarwyddid proffesiynol y Contractwr Torri Gwir.

Cymeradwywyd 4.4.24 v0.1